



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Spotlite ar Amgueddfeydd 2016

Adroddiad i'r Is-Adran Amgueddfeydd,  
Archifau a Llyfrgelloedd,  
Llywodraeth Cymru

## Spotlite ar Amgueddfeydd 2016

### Diolchiadau:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwaith a oedd ynghlwm wrth gasglu'r data hwn, ac mae'n ddiolchgar i'r holl amgueddfeydd a gyfrannodd i'r arolwg.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig.

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael os gofynnir amdanynt

### Manylion cyswllt

Tîm Datblygu Amgueddfeydd  
Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR

E-bost: [MALD@gov.wales](mailto:MALD@gov.wales)

Ffôn: 0300 062 2112

Gwefan: [gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/?lang=cy](http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/?lang=cy)

Delwedd y clawr blaen: Amgueddfa Stori Caerdydd

© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg 'Spotlite' cyntaf. Mae 'Spotlite' yn arolwg blynyddol newydd o amgueddfeydd yng Nghymru, a'r bwriad yw ei fod yn ategu'r arolwg mwy cynhwysfawr, Sbotolau ar Amgueddfeydd, sydd wedi cael ei gynnal bob pedair blynedd er 2002.

Cynhaliwyd yr arolwg er mwyn casglu data ystadegol allweddol, ac er mwyn darparu darlun cyfredol o'r sector amgueddfeydd yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau yn helpu i gyfrannu at amcangyfrifon o effeithiau cymdeithasol ac economaidd amgueddfeydd yng Nghymru, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein er mwyn galluogi amgueddfeydd i'w meincnodi eu hunain yn erbyn amrywiaeth o gymaryddion.

Fel bob amser, rhaid diolch i'r amgueddfeydd a lenwodd yr arolwg.

## 2. Crynodeb

### Cyfradd ymateb

- Ymatebodd 69 o amgueddfeydd i'r arolwg, sy'n is na'r 80 a ymatebodd yn 2015. Cafwyd cyfradd ymateb o 60% o blith amgueddfeydd sydd yn y cynllun Achredu.

### Cynulleidfaoedd

- Roedd cyfanswm o 3,843,037 o ymweliadau ag amgueddfeydd yn 2015, yn ôl yr ymatebion a ddaeth i law.
- Mae ymweliadau wedi gostwng 5.9% rhwng 2011 a 2015, yn ôl sampl gyson.
- Roedd plant (dan 16 oed) yn cyfrif am 30% o'r holl ymweliadau.
- Roedd amgueddfeydd wedi cynnal 561 o weithgareddau a digwyddiadau anffurfiol a oedd wedi denu 54,545 o gyfranogwyr.

### Effaith economaidd

- Roedd ymweliadau hysbys ag amgueddfeydd wedi cael effaith gros o £73.8m yn yr economi.
- Roedd amgueddfeydd wedi creu 1,199 o swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig cyfwerth ag amser llawn ledled y rhanbarth.

### Ymgysylltu ar-lein

- Mae gan 78% o'r amgueddfeydd a ymatebodd eu gwefan eu hunain, ac roedd 88% yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd.

### Ymgysylltu addysgol

- Roedd amgueddfeydd wedi darparu 9,441 o sesiynau addysgu ffurfiol ar y safle, gyda 279,755 o bobl yn cyfranogi, a 400 o sesiynau allgymorth a oedd wedi cyrraedd 11,354 o gyfranogwyr.

### Gweithrediadau ariannol

- Fel arfer, mae 43% (49) yn codi tâl mynediad, mae 50% (55) yn cynnig mynediad am ddim trwy gydol y flwyddyn, ac roedd mynediad i dair amgueddfa yn rhad ac am ddim ond eu bod yn codi tâl ar gyfer rhai o'r arddangosfeydd/yn dymhorol.
- Roedd cyfanswm yr incwm blynyddol a gynhyrchwyd ac a ddaeth i law amgueddfeydd yn £45,533,279.
- Cynhyrchwyd £14,397,394 mewn incwm a enillir.
- Daeth £25,452,299 i law mewn cymhorthdal cyhoeddus rheolaidd.

- Daeth £2,114,517 i law mewn arian grant.
- Daeth £3,569,069 i law mewn incwm wedi'i gyfrannu.

## Y gweithlu – gwirfoddolwyr

- Yn 2015, roedd 2,791 o bobl wedi gwirfoddoli ar gyfer amgueddfeydd, sy'n gyfwerth ag 136 swydd amser llawn.
- Ar gyfartaledd, roedd gan amgueddfeydd 44 o wirfoddolwyr yr un.
- Cyfrannodd gwirfoddolwyr gyfanswm o 225,191 o oriau i amgueddfeydd.
- Ar gyfartaledd, cyfrannodd pob gwirfoddolwr 97 o oriau yn ystod y flwyddyn.
- Roedd amser gwirfoddolwyr yn werth £1.74 miliwn i amgueddfeydd.

## Y gweithlu – staff cyflogedig

- Cyflogodd amgueddfeydd 1,239 o staff cyflogedig, sy'n cyfateb i dros 817 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.
- Roedd wyth amgueddfa yn cael eu rhedeg yn gwbl wirfoddol, heb unrhyw staff cyflogedig.
- Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd, roedd nifer y gwirfoddolwyr 2:1 yn fwy na staff cyflogedig.

# 3. Dull arolwg

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Chwefror 2017. Hysbyswyd amgueddfeydd am yr arolwg trwy neges e-bost uniongyrchol, ynghyd â gwasanaeth ymwybyddiaeth cyfredol MALD. Anfonwyd negeseuon atgoffa rheolaidd i amgueddfeydd, ac roedd cyngor a chymorth ar lenwi'r arolwg ar gael trwy e-bost. Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu data ar gyfer blwyddyn galendr 2015, ac eithrio'r wybodaeth ariannol y gofynnwyd amdani ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 (1 Ebrill – 31 Mawrth). Roedd yr arolwg wedi'i rannu'n bedair adran:

- Cynulleidfaoedd
- Ymgysylltu addysgol
- Gweithrediadau ariannol
- Y gweithlu

# 4. Sampl ac ymateb

Ymatebodd 69 o amgueddfeydd, sy'n is na'r 80 a ymatebodd i arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015. Cafwyd cyfradd ymateb o 60% o blith amgueddfeydd sydd yn y cynllun Achredu. Mae hyn yn sylweddol is na'r 72% a ymatebodd i'r arolwg yn 2015.

Wrth ystyried yr ymatebion, dylid cadw'r canlynol mewn cof:

- Nid oedd yr holl amgueddfeydd wedi ateb pob cwestiwn.
- Mae'r canrannau yn yr adroddiad wedi eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.
- Ystyr 'pob' amgueddfa yw pob amgueddfa a ddychwelodd ffurflen arolwg.
- Mae'r 'grŵp craidd' o amgueddfeydd yn cyfeirio at yr amgueddfeydd hynny sydd wedi ymateb i'r holl arolygon Sbotolau blaenorol.
- Lle bo'r gwahaniaethau yn fach a'r lefelau ymateb yn isel, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.

- Dylid ystyried data cyllideb fel data bras neu ddangosol gan fod methodolegau cyfrifo gwahanol yn cael eu defnyddio gan amgueddfeydd, ac mae nifer o amgueddfeydd yn gweithredu blynyddoedd ariannol gwahanol.

## 5. Categoriâu o amgueddfeydd

Defnyddir tri phrif gategori o amgueddfeydd yn yr adroddiad drwyddo draw ar gyfer dadansoddiadau:


- **Math:** Mae'r math o amgueddfa yn cael ei bennu gan y ffynhonnell gyllido a'r model llywodraethu.
- **Maint:** Mae maint yr amgueddfa yn cael ei bennu gan ffigurau ymweld blynyddol. Bach (o dan 10,000), Canolig (10,000-49,999), Mawr (50,000+).
- **Grŵp craidd** – amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg yn 2002, 2006, 2011 a 2015. Rhoddir rhestr o'r amgueddfeydd sy'n ffurfio'r grŵp craidd ar dudalen 25. Mae'r grŵp hwn wedi gostwng o 73 i 45 er 2006, ac mae bellach yn cynnwys amgueddfeydd Achrededig yn unig.

## 6. Proffil yr ymatebwyr


Mae'r ymatebwyr wedi cael eu rhannu i bedwar categori o amgueddfeydd, yn dibynnu ar y trefniadau ariannu a llywodraethu.

- Amgueddfeydd cenedlaethol, Amgueddfa Cymru (a ariennir gan Lywodraeth Cymru).
- Amgueddfeydd awdurdod lleol (yn cael eu hariannu a'u gweithredu yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol).
- Amgueddfeydd annibynnol (yn cael eu hariannu a'u rhedeg yn annibynnol ar lywodraeth leol neu genedlaethol) – mae'r categori hwn yn cynnwys amgueddfeydd mewn prifysgolion; amgueddfeydd sy'n cael eu rhedeg ar gyfer catrodau'r Fyddin ac elusennau. Efallai y bydd y rhain yn cael rhyw fath o arian cyhoeddus trwy gymorth awdurdodau lleol neu'r llywodraeth, e.e. trwy grantiau neu gyngor proffesiynol.
- Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Ffigur 1: Amgueddfeydd Achrededig yng Nghymru yn ôl math**



**Ffigur 2: Proffil yr amgueddfeydd a ymatebodd yn ôl math**





## O dan y Sbotolau

### Oriel Gelf Glynn Vivian

Roedd Oriol Gelf Glynn Vivian wedi ailagor ym mis Hydref 2016, ar ôl gwaith ailddatblygu gwerth £8.5 miliwn, ac mae wedi cael ei thrawsnewid i fod yn oriel gelf sy'n gyrchfan o bwys rhyngwladol.

Mae'r oriel restredig Gradd II, a sefydlwyd yn 1911, hefyd wedi elwa ar waith adfer cyflawn a gwelliannau i'w chyfleusterau a'i mynediad, ac mae bellach wedi'i chysylltu â'r brif oriel trwy rodfa o'r radd flaenaf.

Ariannwyd y gwaith ailddatblygu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Dinas a Sir Abertawe a CADW, ynghyd â chefnogaeth hael Cronfa Dreftadaeth y Loteri, gan sicrhau dyfodol bywiog ar gyfer yr Oriol a'i threftadaeth.



© Oriol Gelf Glynn Vivian

## 7. Ymatebwyr yn ôl maint

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn amrywio o amgueddfeydd cenedlaethol mawr (Amgueddfa Cymru) i sefydliadau cymunedol bach. I ddibenion yr adroddiad hwn, mae maint amgueddfeydd wedi cael ei bennu gan nifer blynyddol cyfartalog yr ymweliadau yr oeddent wedi eu denu rhwng 2010 a 2015. Os nad oedd amgueddfa, am ryw reswm, wedi darparu niferoedd yr ymwelwyr ar gyfer un o'r blynyddoedd, yna cafodd cyfartaledd y blynyddoedd yr oeddent wedi eu darparu ei ddefnyddio. Nid oedd pedair amgueddfa wedi darparu ffigurau ymweld ar gyfer 2015.

## 8. Oriau Agor Amgueddfeydd

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu manylion eu horiau agor arferol:

- Roedd 34 (51%) yn agored trwy gydol y flwyddyn.
- Roedd 26 (39%) wedi cau am ran o'r flwyddyn, yn rhan o gyfnod cau tymhorol rheolaidd.
- Roedd pum amgueddfa wedi cau am ran o'r flwyddyn, a hynny am resymau megis ailwampio neu atgyweirio.
- Roedd dwy amgueddfa yn agored trwy apwyntiad yn unig gydol y flwyddyn.
- Nid oedd dwy amgueddfa wedi ymateb i'r cwestiwn hwn.


# 9. Cynulleidfaoedd

Mae'r adran hon yn edrych ar y ffigurau ymwelwyr cyffredinol, ymweliadau gan blant ac ymgysylltu ar-lein.


## 9.1 Cyfanswm y ffigurau ymweld

Yn seiliedig ar yr ymatebion a ddaeth i law, cafwyd cyfanswm o 3,843,037 o ymweliadau ag amgueddfeydd yn 2015. Gofynnwyd i'r amgueddfeydd a oedd y ffigurau ymweld a ddarparwyd ganddynt yn rhai gwirioneddol neu'n amcangyfrifon. Cafwyd 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn: roedd 71% (46) wedi darparu ffigurau gwirioneddol, ac roedd y gweddill wedi darparu amcangyfrifon.

**Ffigur 3: Ymatebwyr yn ôl maint, yn seiliedig ar ffigurau ymweld**




**Ffigur 4: Proffil yr amgueddfeydd a ymatebodd yn ôl math**




## 9.2 Ymweliadau gan blant

Roedd yr arolwg yn gofyn i amgueddfeydd ddadansoddi'r ymweliadau yn ymweliadau gan oedolion ac ymweliadau gan blant (o dan 16 oed), ac roedd 54 o amgueddfeydd wedi darparu'r wybodaeth hon. Roedd 994,980 o blant wedi ymweld ag amgueddfeydd yn 2015. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, amcangyfrifir bod plant yn cyfrif am 30% o'r holl ymweliadau. Roedd yna rai amrywiadau sylweddol, yn dibynnu ar faint yr amgueddfa, gyda phlant yn cyfrif am 19% o'r ymweliadau ag amgueddfeydd bach, 25% ag amgueddfeydd canolig, a 31% ag amgueddfeydd mawr. Dim ond 41% (22) o'r amgueddfeydd oedd wedi darparu ffigurau gwirioneddol ar gyfer ymweliadau plant, tra oedd gweddill yr amgueddfeydd wedi darparu amcangyfrifon.

**Ffigur 5: Cyfanswm yr ymweliadau ag amgueddfeydd yn ôl maint**



**Ffigur 6: Cyfanswm yr ymweliadau ag amgueddfeydd yn ôl math**




### 9.3 Cyfanswm yr ymweliadau – newid dros amser

Yn seiliedig ar ffigurau ymweld o sampl gyson o 53 o amgueddfeydd a oedd wedi darparu ffigurau ymweld ar gyfer 2011 i 2015, mae ymweliadau wedi gostwng 5.9%. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof fod hon yn sampl gyson gymharol fach, ac efallai y bydd newidiadau o bwys mewn amgueddfeydd penodol yn cael effaith anghymesur arni.

- Mae'r ffigurau ymweld cyffredinol yn gostwng, er bod amrywiadau sylweddol i'w cael ar draws mathau a meintiau gwahanol o amgueddfeydd.
- Bu gostyngiad o 6.9% rhwng 2011 a 2015 mewn ymweliadau ag amgueddfeydd lleol (nad ydynt yn rhai cenedlaethol nac yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Mae ymweliadau ag Amgueddfa Cymru wedi gostwng 5.1%, a gostyngodd ymweliadau ag eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol 6.2%.
- Mae'r canlyniadau hyn yn gwrthgyferbynnu'n sylweddol â chanfyddiadau Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015, pan adroddwyd bod ymweliadau ag amgueddfeydd lleol (nad ydynt yn rhai cenedlaethol nac yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) wedi cynyddu 1.3% rhwng 2011 a 2014. Roedd ymweliadau ag Amgueddfa Cymru wedi gostwng 3.3%, ac roedd ymweliadau ag eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gostwng 13.3%.

**Ffigur 7: Cyfanswm yr ymweliadau â'r holl amgueddfeydd, yn ôl math, a ddarparodd ddata ymweld ar gyfer pob blwyddyn 2011-2015**




### 9.4 Cyfanswm yr ymweliadau – newid dros amser

- Ledled y grŵp craidd o amgueddfeydd, mae ymweliadau wedi gostwng 9.2% rhwng 2011 a 2015.
- O blith y grŵp craidd, mae 70% (28) wedi adrodd am ostyngiad mewn ffigurau ymweld er 2011, tra bo 30% (12) yn unig wedi adrodd bod eu ffigurau ymweld wedi aros yr un fath neu wedi cynyddu.
- Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod 2015 yn flwyddyn arbennig o heriol ar gyfer amgueddfeydd, gydag ymweliadau ledled y grŵp craidd wedi gostwng 4.7% rhwng 2014 a 2015. Er ei bod yn bwysig mabwysiadu barn hirdymor mewn perthynas â phwysigrwydd cymharol amrywiadau yn y ffigurau ymweld, mae cyfanswm yr ymweliadau wedi bod yn dirywio ers pum mlynedd yn olynol bellach, yn ôl y ffigurau gan y grŵp craidd.



**Ffigur 8: Cyfanswm yr ymweliadau ag amgueddfeydd y grŵp craidd, yn ôl math, a ddarparodd ddata ymweld ar gyfer pob blwyddyn 2011-2015**




## 9.5 Cyfartaledd nifer yr ymweliadau ag amgueddfeydd yn ôl maint a math


Wrth gwrs, mae a wnelo pwysigrwydd ymweliadau ag amgueddfeydd â maint a chwmpas unrhyw amgueddfa benodol. Fodd bynnag, nifer yr ymweliadau mewn person yw un o brif ddangosyddion poblogrwydd unrhyw amgueddfa ac, mewn llawer o ffyrdd, ei llwyddiant.

Gall cymharu'r nifer cyfartalog o ymweliadau ag amgueddfeydd o faint penodol ddarparu man cychwyn defnyddiol i amgueddfeydd allu meicnodi eu perfformiad, ac o ran darparu cyd-destun sector ehangach i weithrediadau unigol unrhyw amgueddfa.

Ffigur 9: Cyfartaledd yr ymweliadau ag amgueddfeydd yn ôl math



Ffigur 10: Cyfartaledd yr ymweliadau ag amgueddfeydd yn ôl maint



# 10. Effaith economaidd ymweliadau

Mae amgueddfeydd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi ranbarthol trwy greu amrywiaeth o fanteision economaidd, yn arbennig o ran helpu i ddenu twristiaeth.

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Effaith Economaidd a ddatblygwyd gan yr ymgynghorwyr, DC Research, i helpu amgueddfeydd i fynegi effaith gros ymweliadau â'u hamgueddfa yn nhermau gwerth economaidd. Gall y pecyn cymorth hwn gael ei ddefnyddio gan amgueddfeydd unigol, ond gall hefyd helpu i roi syniad o'r gwerth economaidd hwn ar lefel gyfanredol.

Roedd effaith gros ymwelwyr yn £73,874,228 yn economi Cymru yn 2015, yn seiliedig ar y data ymweld a ddarparwyd gan amgueddfeydd.

**Ffigur 11: Effeithiau gros ymwelwyr fesul rhanbarth yng Nghymru 2015**

	Rhagdybiaeth o wariant cyfartalog (ymwelwyr lleol)	Rhagdybiaeth o wariant cyfartalog (ymwelwyr dydd)	Cyfanswm gwerth yr ymweliadau
De-ddwyrain	£15.30	£30.61	£35,786,778
De-orllewin	£22.49	£44.98	£16,384,360
Canolbarth Cymru	£18.96	£37.92	£2,471,270
Gogledd Cymru	£14.39	£28.78	£19,231,820
		Cyfanswm	£73,874,228

## 10.1 Cyfrifo'r effaith economaidd

- Mae'r cyfrif yn cymryd nifer yr ymweliadau oedolion ag amgueddfa, yn pennu cyfran yr ymweliadau lleol, dydd a dros nos, ac yn lluosio'r rhain â rhagdybiaethau o wariant cyfartalog ymwelwyr. Mae'r rhagdybiaethau gwariant wedi cael eu datblygu gan DC Research o setiau data cyfaint a gwerth twristiaeth ranbarthol a chenedlaethol, a ddiweddarwyd yn 2014.<sup>1</sup>
- Mae cyfanswm amcangyfrifedig yr ymweliadau oedolion yn seiliedig ar y gymhareb oedolyn/plentyn 81/19 ar gyfer amgueddfeydd bach, 75/25 ar gyfer amgueddfeydd canolig, a 69/31 ar gyfer amgueddfeydd mawr.
- Nid oedd cymarebau gwirioneddol ar gyfer ymweliadau lleol, dydd a dros nos ar gael gan amgueddfeydd, felly defnyddiwyd y cymarebau cyfartalog a ddatblygwyd gan DC Research. Nid oedd unrhyw ddata ar gyfer ymweliadau dros nos ar gael, felly mae'r ymweliadau wedi cael eu rhannu yn ymweliadau lleol a dydd yn unig. Mae hyn yn golygu bod gwerth economaidd cyffredinol ymweliadau yn debygol o fod yn uwch na'r ffigurau a ddangosir yma, a hynny oherwydd y lefelau uwch yng ngwariant ymwelwyr sy'n gysylltiedig ag ymweliadau dros nos.

	Ymweliadau lleol	Ymweliadau dydd
Amgueddfeydd bach	47	53
Amgueddfeydd canolig	44	56
Amgueddfeydd mawr	31	69

<sup>1</sup> <https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2017/02/AIM-Economic-Impact-Toolkit-2014.pdf>

# 11. Ymgysylltu ar-lein

## 11.1 Gwefannau

Gofynnodd yr arolwg a oedd gan amgueddfeydd eu gwefan eu hunain, er nad oedd y cwestiwn yn sefydlu a oedd gan bob un o'r amgueddfeydd hyn reolaeth olygyddol a rheolaeth ar gynnwys y gwefannau hyn. Yn ychwanegol at y cwestiwn hwn, roedd pob amgueddfa yn y cynllun Achredu wedi cael eu 'gwnglo' ym mis Mawrth 2017 i sefydlu a oedd ganddynt eu gwefannau eu hunain. Gwelwyd bod gan bob amgueddfa bresenoldeb ar-lein; fodd bynnag, dim ond 78% (87 allan o 111) oedd â'u gwefan benodedig eu hunain. O'r 24 o amgueddfeydd a oedd yn weddill, roedd 20 o'r rhain yn amgueddfeydd awdurdodau lleol, lle roedd gwybodaeth am yr amgueddfa wedi cael ei hymgorffori yn rhan o wefan yr awdurdod lleol.

Gofynnwyd i'r amgueddfeydd hefyd ddarparu data ar gyfanswm yr ymwelwyr unigryw i'w gwefannau. Roedd 42% (28 allan o 66) o'r ymatebwyr wedi darparu ffigurau. Dywedodd bron chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, neu nad oedd yr wybodaeth yn cael ei chofnodi.

Mae hyn yn awgrymu nad oedd y math hwn o wybodaeth yn hawdd ei gyrchu i'r sawl a lenwodd yr arolwg, neu nad yw amgueddfeydd yn defnyddio dulliau dadansoddi sylfaenol, er enghraifft Google Analytics, i gasglu'r wybodaeth hon ac i fonitro'r defnydd o'u gwefan.

### O dan y Sbotolau

#### Amgueddfa Arberth

Ailagorodd Amgueddfa Arberth yn 2012, ar ôl prosiect ailadeiladu mawr.

Roedd y profiad a gafwyd trwy gydol y cyfnod adfer wedi llywio ein penderfyniad i ymgorffori gwerthu ar-lein ar ein gwefan newydd, [www.narberthmuseum.co.uk](http://www.narberthmuseum.co.uk)

Rydym yn canolbwyntio ar deitlau lleol a theitlau o ddi-ddordeb Cymreig, sy'n boblogaidd gydag achyddion ac ymchwilwyr. Mae gwerthu ar-lein yn cynyddu ein cyrhaeddiad ac yn ein galluogi i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ymhellach i ffwrdd. Rydym yn bwriadu datblygu'r cyfleuster hwn trwy greu gwefan gyfoes.

Ar yr un pryd, rydym wedi sefydlu system pwynt gwerthu electronig (EPOS) i reoli'r stoc a monitro data ymwelwyr.

Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i weinyddu'r ddwy system.

Mae'r mentrau hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i grant Cronfa Drawsnewid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.



## 11.2 Y Cyfryngau Cymdeithasol

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu gwybodaeth am eu defnydd, neu beidio, o'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd, ynghyd â nifer eu tanysgrifwyr neu ddilynwyr ar draws eu holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd 88% (61 allan o 69) eu bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Mae hyn yn ostyngiad bach ar y 91% a nododd hyn yn Sbotolau 2015; fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i sampl llai o faint, ynghyd â'r amgueddfeydd penodol a ymatebodd i'r arolwg.

## 12. Ymgysylltu addysgol

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu data ar nifer y sesiynau a chyfranogwyr mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd, yn 2015.

Yn seiliedig ar ymatebion 50 o amgueddfeydd, roedd amgueddfeydd wedi darparu 9,441 o sesiynau dysgu ffurfiol ar y safle, a oedd wedi ymgysylltu â 279,755 o gyfranogwyr. Dywedodd 11 o amgueddfeydd nad oeddent yn darparu unrhyw sesiynau addysg gyda darparwyr addysg ffurfiol.

Mae'r ymatebion a gafwyd gan y grŵp craidd yn dangos bod nifer y sesiynau addysg ffurfiol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ac amgueddfeydd annibynnol wedi gostwng 29% a 31%, yn y drefn honno, ers Sbotolau 2015 (data ar gyfer 1 Ebrill – 31 Mawrth 2013-14).

Roedd 45 o amgueddfeydd wedi darparu gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau anffurfiol a gafodd eu darparu ar y safle. Roedd amgueddfeydd wedi darparu 1,330 o weithgareddau a digwyddiadau ar y safle gyda darparwyr nad ydynt yn ddarparwyr addysg, gan ymgysylltu â 335,768 o gyfranogwyr. Dywedodd 15 o amgueddfeydd nad oeddent yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau anffurfiol.

### 12.1 Allgymorth addysgol

Nid dim ond y tu mewn i amgueddfeydd y mae cyfleoedd dysgu yn cael eu darparu. Mae gwaith allgymorth yn rhan bwysig o'r cynnig dysgu gan lawer o amgueddfeydd, ac yn ffordd bwysig o gynnwys cymunedau lleol na fyddent, efallai, yn defnyddio adeilad yr amgueddfa. Yn seiliedig ar ymatebion gan 24 o amgueddfeydd, darparodd amgueddfeydd 400 o sesiynau dysgu ac allgymorth oddi ar y safle, a oedd wedi ymgysylltu ag 11,354 o gyfranogwyr. Mae hyn yn cynnwys sesiynau blwch benthyg mewn ysgolion. Dywedodd 54% (37) o'r amgueddfeydd a ymatebodd nad oeddent yn darparu unrhyw sesiynau addysg oddi ar y safle gyda darparwyr addysg ffurfiol.

Roedd 30 o amgueddfeydd wedi darparu gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau anffurfiol gyda darparwyr nad ydynt yn ddarparwyr addysg, a gynhaliwyd oddi ar y safle. Roedd amgueddfeydd wedi darparu 561 o weithgareddau a digwyddiadau a oedd wedi ymgysylltu â 54,545 o gyfranogwyr. Dywedodd 40% (27) o'r amgueddfeydd a ymatebodd nad oeddent yn cynnal unrhyw sesiynau gweithgareddau neu ddigwyddiadau oddi ar y safle.



## O dan y Sbotolau

### Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol (Aberhonddu)

Mae'r gwasanaeth addysg a gynigir gan yr Amgueddfa Gatrodol yn Aberhonddu yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda dros 1,500 o ddisgyblion o tua 70 o ysgolion cynradd wedi ymweld â'r Amgueddfa yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf yn unig. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdai sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, ac mae pob un wedi'i gynllunio i adlewyrchu union ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn y gweithdy cyntaf, mae'r disgyblion yn chwarae rôl trwy fod yn ddynion sy'n "ymrestru" ym mis Awst 1914, ar ddechrau'r rhyfel, ac yn yr ail weithdy maent yn cyrraedd yr Amgueddfa wedi gwisgo fel faciwîs, ac yn dysgu am brofiadau plant yn ystod y Blitz. Er bod y ddau weithdy yn cynnwys gwisgo gwisgoedd dilys, a defnyddio gwrthrychau o'r cyfnod, mae rhaglen yr Ail Ryfel Byd yn defnyddio'r replica o Loches Anderson, sydd wedi'i gosod o flaen adeilad yr Amgueddfa. Wrth iddynt eistedd yn y Lloches, mae'r disgyblion yn gwrandao ar synau cyrch awyr a recordiwyd yn ystod yr 1940au, rhywbeth sy'n gwneud y profiad yn un pwerus iawn.




© Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol (Aberhonddu)

## 13. Tâl mynediad


Gofynnwyd i amgueddfeydd a oeddent yn codi tâl mynediad. Hefyd, gwiriwyd gwefan pob amgueddfa Achrededig er mwyn llunio rhestr gynhwysfawr o'r amgueddfeydd a oedd yn codi tâl ar'r rhai nad oeddent.

Roedd 43% (49) yn codi tâl mynediad fel arfer, roedd 50% (55) yn cynnig mynediad yn rhad ac am ddim trwy gydol y flwyddyn, ac roedd tair amgueddfa yn rhad ac am ddim ond yn codi tâl ar gyfer rhai arddangosfeydd/yn dymhorol. Doedd dim modd canfod gwybodaeth am dâl mynediad ar gyfer chwe amgueddfa. Dengys y ffigurau ar y chwith y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer amgueddfeydd, yn ôl maint a math. Nid yw'r cyfartaleddau a ddangosir ar gyfer tâl mynediad i blant yn cynnwys gwybodaeth am pryd y cynigir mynediad am ddim, felly gall y prisiau ymddangos yn gymharol uwch o'u cymharu â thaliadau mynediad i oedolion. Er enghraifft, o'r naw amgueddfa awdurdod lleol sy'n codi tâl mynediad, dim ond codi tâl mynediad ar gyfer oedolion mae pedair o'r rhain, ac mae plant yn cael mynediad yn rhad ac am ddim.

**Ffigur 12: Y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion, yn ôl maint a math (o ran amgueddfeydd sy'n codi tâl mynediad)**



**Figure 13: Y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer plant, yn ôl maint a math (o ran amgueddfeydd sy'n codi tâl mynediad)**



Ffigur 14: Bandiau codi tâl ar gyfer amgueddfeydd sy'n codi tâl mynediad

	Oedolyn		Plentyn	
Am ddim	-	-	20%	(9)
Llai na £3.00	24%	(11)	43%	(20)
£3.00 i £4.99	33%	(15)	26%	(12)
£5.00 i £7.49	22%	(10)	9%	(4)
£7.50 i £9.99	11%	(5)	2%	(1)
£10.00 neu fwy	11%	(5)	-	-

## 14. Incwm yn ôl y model codi tâl a'r math


Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu ystod o wybodaeth ariannol a oedd yn cynnwys ffynonellau incwm, gwariant cyffredinol a gwariant ar staffio. Cyflwynodd 58 o ymatebwyr wybodaeth ariannol.

### 14.1 Incwm

Roedd cyfanswm yr incwm blynyddol a gafodd ei gynhyrchu gan amgueddfeydd, ac a ddaeth i'w llaw, yn £45,533,279. Gellir ei ddadansoddi fel a ganlyn:

- £14,397,394 mewn incwm a enillir, a oedd yn cynnwys tâl mynediad, adwerthu, arlwyio, digwyddiadau a lletygarwch, gweithgarwch addysgol, ac unrhyw incwm arall o weithgarwch masnachu.
- Daeth £25,452,299 i law ar ffurf cymhorthdal cyhoeddus rheolaidd.
- Daeth £2,114,517 i law ar ffurf cyllid grant.
- Daeth £3,569,069 i law ar ffurf incwm a gyfrannwyd. Mae hyn yn cynnwys yr holl arian a ddaw i law ar ffurf rhoddion gan y cyhoedd yn gyffredinol neu gan ffrindiau (yn cynnwys cynlluniau ffrindiau/aelodaeth), ochr yn ochr ag unrhyw incwm a ddaw o nawdd, cynlluniau aelodaeth gorfforaethol neu incwm arall nad yw wedi cael ei ennill, ac eithrio grantiau.

Ffigur 15: Ffynonellau incwm yn ôl y model codi tâl a math




	Tâl Annibynnol	Tâl Awdurdod Lleol	Am ddim Annibynnol	Am ddim Awdurdod Lleol	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Incwm cyfartalog	£129,433	£497,250	£100,336	£290,814	£620,009

Mae cyfanswm yr incwm yr adroddwyd amdano gan amgueddfeydd trwy Spotlite 2016 yn uwch nag yn Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015, a hynny er gwaethaf y maint llai am nad oedd llawer o amgueddfeydd mawr wedi darparu gwybodaeth ariannol yn rhan o’u hymatebion i Sbotolau 2015.

## 14.2 Incwm yn ôl y model codi tâl a maint

- Mae Ffigur 15 a Ffigur 16 yn amlygu bod gwahaniaethau sylweddol iawn i’w cael yng nghyfansoddiad cyllid amgueddfeydd. Yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd gan amgueddfeydd, y ffactor dylanwadol mwyaf arwyddocaol oedd a oedd amgueddfa yn codi tâl mynediad ai peidio.
- Roedd lefelau’r incwm a enillir yn amrywio o 83% o gyfanswm yr incwm i 5%.
- Dywedodd 54% (37) o’r amgueddfeydd eu bod yn cael cymhorthdal cyhoeddus rheolaidd. Mae’r prif fathau o gymhorthdal cyhoeddus ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru yn dod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Amgueddfa Cymru, cyllid awdurdodau lleol ar gyfer amgueddfeydd awdurdodau lleol, cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer amgueddfeydd milwrol, a chyllid Addysg Uwch ar gyfer amgueddfeydd prifysgolion. Mae nifer o amgueddfeydd annibynnol hefyd yn cael cyllid rheolaidd gan awdurdodau lleol.
- Roedd lefelau’r incwm grant, fel canran o gyfanswm yr incwm, ar eu huchaf ymhlith amgueddfeydd bach i ganolig ac amgueddfeydd annibynnol.
- Roedd lefelau’r incwm a gyfrannwyd, fel canran o gyfanswm yr incwm, ar eu huchaf ymhlith amgueddfeydd bach i ganolig ac amgueddfeydd annibynnol; y lefelau trosiant cymharol fach sy’n bennaf cyfrifol am hyn.

Ffigur 16: Ffynonellau incwm yn ôl y model codi tâl a math




	Bach – codi tâl	Bach – am ddim	Canolig – codi tâl	Canolig – am ddim	Mawr – codi tâl	Mawr – am ddim
Incwm cyfartalog	£65,746	£13,751	£129,607	£175,253	£1,140,875	£512,519

### 14.3 Newid yn yr incwm dros amser

- Yn seiliedig ar ddata gan y grŵp craidd o amgueddfeydd, roedd y gyllideb flynyddol gyfartalog ar gyfer amgueddfeydd lleol (amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol nac yn amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn £166,860 yn 2015-16, o gymharu â £150,742 yn 2013-14.
- Mae Ffigur 17 yn dangos y dadansoddiad o'r ffynonellau incwm ar gyfer y grŵp craidd o amgueddfeydd, yn ôl eu math. Yn gyffredinol, ychydig iawn o newid a fu rhwng 2013-14 a 2015-16 o ran cyfansoddiad cyllid yr amgueddfeydd yn y grŵp craidd.
- Roedd maint y sampl yn annigonol i ddarparu data cymharol ar gyfer eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Ffigur 17: Ffynonellau incwm ar gyfer y grŵp craidd, yn ôl math (2013-14 a 2015-16)**



Incwm cyfartalog	Annibynnol	Awdurdod Lleol	Amgueddfa Cymru
2013/2014	£94,196	£268,954	£32,351,000
2015/2016	£83,730	£265,976	£28,861,000



## O dan y Sbotolau

### Storiel

Ym mis Ionawr 2016, ailagorodd Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd, Bangor ei drysau fel Storiel – sef amgueddfa ac oriel gelf newydd, ddiddorol a hygyrch, sy'n cynnwys caffi, siop, a gofod cymunedol a dysgu, a'r cyfan mewn adeilad rhestredig. Ers hynny, mae dros 110,000 o bobl wedi ymweld â Storiel.

Mae rhan o atyniad Storiel i'w briodoli i'r caffi gwych, Seibiant, sy'n cael ei redeg gan Susan Ashworth a'i thîm o staff lleol. Mae'r caffi, sydd ar brydles, yn rhan annatod o achos busnes a chynhyrchu incwm Storiel. Mae hefyd yn amhrisiadwy fel rhan o brofiad yr ymwelydd, gyda'i fwydlen boblogaidd a'i awyrgylch unigryw. Yn ogystal â darparu lluniaeth ar gyfer ein hymwelwyr, gall Seibiant arlwygo ar gyfer anghenion cwsmeriaid ein hystafell gynhadledd.



© Storiel

## 15. Gwariant a chostau staffio

Cafwyd 38 o ymatebion gan amgueddfeydd a gwasanaethau amgueddfeydd sy'n cyflogi staff cyflogedig, a darparwyd gwybodaeth am gyfanswm y gwariant, a'r gwariant ar gostau staffio, fel ei gilydd. Ar gyfartaledd, roedd y gwariant ar staff yn cyfrif am 52% o gyfanswm y gwariant, a gellir ei ddadansoddi fel a ganlyn:

- Roedd chwe amgueddfa yn gwario 30% neu lai o'r gwariant blyneddol ar gostau staffio
- Roedd 11 yn gwario rhwng 31% a 50%
- Roedd 15 yn gwario rhwng 51% a 70%
- Roedd chwech yn gwario rhwng 71% a 100%

Y canfyddiad mwyaf amlwg yw bod costau staffio, ar gyfartaledd, yn ffurfio canran sylweddol uwch o'r costau yn achos amgueddfeydd awdurdodau lleol nag y maent ar gyfer amgueddfeydd annibynnol. Byddai'r data ar nifer y staff cyflogedig a'r staff cyfwerth ag amser llawn yn awgrymu y galli hyn gael ei egluro'n rhannol gan y ffaith fod amgueddfeydd awdurdodau lleol, yn gyffredinol, yn cyflogi nifer mwy o staff o gymharu ag amgueddfeydd annibynnol, sy'n elwa ar gyfraniad llawer mwy o wirfoddolwyr.

Mae hefyd yn werth nodi nad yw amgueddfeydd awdurdodau lleol, efallai, wedi cynnwys costau staffio sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a ddarperir yn ganolog, er enghraifft cyllid, Adnoddau Dynol, cymorth cyfreithiol a TGCh. Felly, mae gwir gost staffio, fel canran o gyfanswm y gwariant, yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr amgueddfeydd hynny.

**Ffigur 18: Gwariant cyfartalog ar staffio yn ôl maint a math**

Categori	Nifer yr ymatebwyr	Cyfartaledd cyfanswm y gwariant a wariwyd ar staffio	% Isaf	% Uchaf
9,999 o ymweliadau neu lai	9	43%	26%	62%
10,000-49,999 o ymweliadau	17	51%	17%	87%
50,000 – 99,999 o ymweliadau	3	59%	57%	60%
100,000+ o ymweliadau	8	63%	55%	84%
Annibynnol	17	46%	17%	87%
Awdurdod Lleol	15	57%	23%	84%

## 16. Y gweithlu


Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu cyfanswm nifer y bobl yn eu gweithlu, pa un a oeddent yn gweithio am dâl neu'n wirfoddol, ac a oeddent yn staff llawn-amser, rhan-amser neu dymhorol.

- Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan amgueddfeydd ar gyfer 2015, roedd 4,030 o bobl yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn amgueddfeydd yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 3,496 yn 2013-14, 3,435 yn 2011, a 2,640 yn 2006. Mae'r cynnydd hwn yn annisgwyl, efallai, o ystyried maint sylweddol lai y sampl ar gyfer arolwg 2016 (69 o ymatebion) o gymharu ag arolwg 2015 (80 o ymatebion), a 2011 (106 o ymatebion). Fodd bynnag, gall y cynnydd hwn gael ei esbonio'n gyfan gwbl gan gynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr.
- Mae amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfrif am 36% o gyfanswm y gweithlu, er mai dim ond 14% o'r ymatebwyr y maent yn eu cynrychioli. Eu sylfaen fawr o wirfoddolwyr sy'n bennaf cyfrifol am hyn. Mae Amgueddfa Cymru a'r sector annibynnol yn cyfrif am 27% a 26% o'r gweithlu, yn y drefn honno, tra bo amgueddfeydd awdurdodau lleol yn cynrychioli 11% oherwydd eu sylfaen lai o wirfoddolwyr.
- Roedd wyth amgueddfa Achrededig yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig, heb unrhyw staff cyflogedig. Roedd y rhain i gyd yn amgueddfeydd annibynnol.

### 16.1 Newidiadau yn y Gweithlu

- Er 2010, mae lefelau'r staff cyflogedig ar draws y grŵp craidd wedi aros yn gymharol sefydlog, gyda gostyngiad o ychydig dros 1% yn unig.
- Y newid mwyaf arwyddocaol fu'r cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu eu hamser i amgueddfeydd. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu 85% rhwng 2010 a 2015. Nid yw'r data yn dangos rheswm amlwg dros hyn.
- Er nad yw pob amgueddfa yn y grŵp craidd wedi darparu oriau gwirfoddolwyr ar gyfer 2010 a 2015, mae'r rhain hefyd wedi cynyddu 56%, a hynny o 90,853 yn 2010 i 141,819 yn 2015.
- Mae'r oriau cyfartalog sy'n cael eu cyfrannu gan wirfoddolwyr hefyd wedi codi o 124 yn 2010 i 141 yn 2015. Mae hyn yn seiliedig ar ddata gan y grŵp craidd a ddarparodd ddata ar gyfer nifer y gwirfoddolwyr a hefyd yr oriau a gyfrannwyd (32 yn 2010 a 28 yn 2015).
- Mae'r wybodaeth gan y grŵp craidd o amgueddfeydd yn awgrymu bod nifer y staff cyfwerth ag amser llawn wedi aros yn gymharol sefydlog er 2013-14. Rhoddodd 23% (9) o'r amgueddfeydd wybod bod cynnydd wedi bod yn nifer y staff FTE (cyfwerth ag amser llawn), roedd 38% (15) wedi aros yr un fath, a nododd 38% (15) ostyngiad.

**Ffigur 19: Cyfraneddau'r gweithlu yn ôl y math o amgueddfa a'r math o gyflogaeth (gwirfoddol/cyflogedig)**



**Ffigur 20: Gweithlu grŵp craidd 2013-14 a 2015 yn ôl y math o gyflogaeth (gwirfoddol a chyflogedig)**



## 16.2 Y gweithlu – Staff cyflogedig

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu gwybodaeth am gyfanswm nifer y staff a gyflogir gan yr amgueddfa yn ystod ei hamserau prysur yn y flwyddyn, ynghyd â nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (FTE).

- Cyflogodd amgueddfeydd 1,239 o staff cyflogedig, yn seiliedig ar 65 o ymatebion. Gellir gweld y lefelau staffio cyflogedig cyfartalog ar gyfer mathau a meintiau gwahanol o amgueddfeydd yn Ffigur 21.
- Cyflogodd amgueddfeydd 817 o staff FTE, yn seiliedig ar 63 o ymatebion.
- Roedd nifer y gwirfoddolwyr yn fwy na'r staff cyflogedig mewn cymhareb o 2:1.


## 16.3 Effeithiau cyflogaeth

Gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Effaith Economaidd AIM, gallwn amcangyfrif gwerth gweithwyr amgueddfeydd i economi Cymru.

- Mae amgueddfeydd yn creu 1,199 o swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig cyfwerth ag amser llawn ledled Cymru.

Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar ddata cyflogaeth FTE, ac yn cymryd i ystyriaeth 'gollwng' (y rhai nad ydynt yn byw yn lleol), 'dadleoli', 'difuddiant' a ffactorau lluosydd, gan ddefnyddio amcangyfrifon a ddatblygwyd trwy DC Research<sup>2</sup>. Mae FTE yn trosi cyflogaeth yn swyddi llawn-amser. Mae hyn yn galluogi i sefydliadau gael eu cymharu. Lle nad yw amgueddfa wedi darparu ffigur FTE, mae'r dybiaeth bod dau aelod o staff cyflogedig yn cyfateb i un swydd FTE wedi cael ei defnyddio i ddibenion y dadansoddiad hwn.

**Ffigur 21: Niferoedd cyfartalog y staff cyflogedig (o ran amgueddfeydd a gyflogodd o leiaf un aelod o staff cyflogedig)**



## 16.4 Y gweithlu – gwirfoddolwyr

- Mae 69% o gyfanswm y gweithlu yn wirfoddol, yn seiliedig ar ddata gan amgueddfeydd. Mae hyn wedi codi o 66% yn 2013-14, ac o 62% yn yr adroddiad ar arolwg 2011.
- Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg, roedd cyfanswm o 2,791 o bobl yn gwirfoddoli ar gyfer amgueddfeydd yn 2015.
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd â'r nifer mwyaf o wirfoddolwyr yn 2015, sef cyfanswm o 1,231.
- Mae 88% (61) o amgueddfeydd yn cael eu cynorthwyo gan wirfoddolwyr. Dim ond wyth amgueddfa a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw wirfoddolwyr.
- Ar gyfartaledd, cyfrannodd gwirfoddolwyr 97 o oriau y flwyddyn yn 2015 (yn seiliedig ar 44

<sup>2</sup> <https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2017/02/AIM-Economic-Impact-Toolkit-2014.pdf>

o ymatebion gan amgueddfeydd a oedd â gwirfoddolwyr, ac a oedd wedi cynnwys nifer y gwirfoddolwyr, ynghyd â'u horiau).


- Cyfrannodd gwirfoddolwyr 225,191 o oriau amcangyfrifedig yn 2015. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn prisio amser gwirfoddoli ar £350 y dydd ar gyfer gwasanaethau proffesiynol, £150 ar gyfer gwaith medrus, a £50 ar gyfer gwaith di-grefft, yn seiliedig ar 7.5 awr y dydd. Ni chasglwyd gwybodaeth yn 2015 am ddadansoddiad o lefel y gwaith a wnaed gan wirfoddolwyr ond, gan ddefnyddio'r un gymhareb ag a sefydlwyd yn 2011<sup>3</sup>, gellir cyfrif gwerth amser gwirfoddolwyr i amgueddfeydd Cymru fel a ganlyn:

$$207,176 / 7.5 \times £50 = £1,381,173$$

$$18,015 / 7.5 \times £150 = £360,300$$

$$\text{Cyfanswm} = £1,741,473$$

**Ffigur 22: Niferoedd cyfartalog y gwirfoddolwyr (o ran amgueddfeydd a oedd ag o leiaf un gwirfoddolwr)**




## 16.5 Y gweithlu – patrymau gweithio mewn amgueddfeydd

- Mae'r rhan fwyaf o'r staff cyflogedig yn staff llawn-amser. Yn seiliedig ar ffigurau gan y grŵp craidd – mae newid wedi bod o ran staff cyflogedig wrth iddynt symud o waith llawn-amser a gwaith tymhorol i waith rhan-amser.
- Yn 2010, roedd 58% o'r gweithlu cyflogedig yn llawn-amser, roedd 31% yn rhan-amser, ac 11% yn dymhorol. Yn 2015, roedd 53% yn llawn-amser, roedd 44% yn rhan-amser, a 3% yn dymhorol.
- Mae bron pob gwirfoddolwr yn gweithio'n rhan-amser, ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio trwy'r flwyddyn.

<sup>3</sup> Yn 2011, cyfrifwyd bod y gymhareb ar gyfer gwaith di-grefft a gwaith medrus yn 92:8. <http://gov.wales/docs/drah/publications/130503spotlight2011en.pdf>, t.72, op cit




Ffigur 23: Patrymau gweithio ym mhob amgueddfa, 2015



## 16.6 Proffil y Gweithlu – staff cyflogedig

- Atebodd pob un o'r 69 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd 10% nad oeddent yn gwybod beth oedd proffil oedran eu staff, ac felly nid oeddent wedi darparu dadansoddiad.
- Gofynnwyd i amgueddfeydd faint o aelodau o'u staff cyflogedig oedd yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Diffiniwyd rhugl fel y gallu i siarad iaith yn gywir ac mewn modd hyderus.
- Roedd 75% (52) o'r amgueddfeydd wedi darparu gwybodaeth am hyn, ond roedd gweddill yr amgueddfeydd wedi nodi nad oeddent yn gwybod.
- Adroddwyd bod 25% o'r staff cyflogedig yn siaradwyr Cymraeg rhugl.
- O'r 44 o amgueddfeydd a oedd yn cyflogi o leiaf un aelod cyflogedig o staff, roedd gan 52% ohonynt o leiaf un aelod cyflogedig o staff y dywedwyd ei fod yn siaradwr Cymraeg rhugl.


Ffigur 24: Proffil oedran staff cyflogedig ym mhob amgueddfa, 2015



### 16.7 Proffil y Gweithlu – gwirfoddolwyr

- Atebodd pob un o'r 69 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd 41% nad oeddent yn gwybod beth oedd proffil oedran eu gwirfoddolwyr, ac felly nid oeddent wedi darparu dadansoddiad.
- Gofynnwyd i amgueddfeydd faint o'u gwirfoddolwyr oedd yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Diffiniwyd rhugl fel y gallu i siarad iaith yn gywir ac mewn modd hyderus.
- O'r 55 o amgueddfeydd a oedd yn defnyddio gwirfoddolwyr, roedd 55% (30) wedi darparu gwybodaeth am hyn, ond roedd gweddill yr amgueddfeydd wedi nodi nad oeddent yn gwybod.
- Yn seiliedig ar y sampl hon, adroddwyd bod 9% o'r gwirfoddolwyr mewn amgueddfeydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.
- O'r 30 o amgueddfeydd a oedd wedi darparu gwybodaeth, nododd 60% ohonynt fod ganddynt o leiaf un gwirfoddolwr y dywedwyd ei fod yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Ffigur 25: Proffil oedran gwirfoddolwyr ym mhob amgueddfa, 2015



## Gyda diolch i'r amgueddfeydd canlynol am gymryd rhan:

Grŵp craidd o amgueddfeydd sydd wedi cyflwyno data ar gyfer pob arolwg

Tŷ Aberconwy

Amgueddfa'r Fenni

Prifysgol Aberystwyth, Oriol ac Amgueddfa'r Ysgol Gelfyddyd

Sefydliad y Morwyr, y Bermo

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru

Ymddiriedolaeth Castell a Pharc Bodolwyddan

Amgueddfa ac Oriol Gelf Brycheiniog

Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Amgueddfa Ceredigion

Tollty a Phont Grog Conwy

Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa

Prifysgol Abertawe – y Ganolfan Eifftaidd

Oriol Gelf Glynn Vivian

Amgueddfa Dyffryn Maes-glas

Amgueddfa Arforol Caerdybi

Llety'r Barnwr

Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli

Amgueddfa Llandudno

Amgueddfa Llanidloes

Amgueddfa Lloyd George

Amgueddfa Arberth

Amgueddfa Rheilffyrdd Bach Cul

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Amgueddfa Lechi Cymru

Amgueddfa Wlân Cymru

Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd

Amgueddfa'r Hen Gloch

Oriol Ynys Môn

Amgueddfa ac Oriol Gelf Parc Howard

Bwthyn Penrhos

Castell Penrhyn

Plas yn Rhiw

Amgueddfa Pont-y-pŵl

Amgueddfa Pontypridd

Amgueddfa Porthcawl

Amgueddfa Powysland

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Amgueddfa Maenor Scolton

Amgueddfa Syr Henry Jones

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru  
Amgueddfa Abertawe  
Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod  
Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol (Aberhonddu)  
Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### **Grŵp nad ydynt yn rhai craidd**

Amgueddfa Cerflunwaith Andrew Logan  
CARAD  
Castell Caerdydd  
Stori Caerdydd  
Castell y Waun  
Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy  
Amgueddfa Dinbych  
Erddig  
Firing Line: Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd  
Llanerchaeron  
Amgueddfa Celf Fodern Cymru  
Amgueddfa Cyflymder, Pentwyn  
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau  
Bythynnod Penmaenmawr  
Plas Glyn-y-Weddw  
Plas Newydd  
Parc Treftadaeth Cwm Rhondda  
Rheilffordd Fach y Rhyl  
Storiel  
Tŷ a Pharc Tredegar  
Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd  
Tŷ Weindio